



Ymweliad gan Grŵp Dyffryn Conwy, aelodau Sefydliad y Merched Dydd Mercher, Hydref y 9fed 2019

Bu i nifer o'n haelodau ni groesawu pymtheg o aelodau Grŵp Sefydliad y Merched Dyffryn Conwy oddi ar y trê'n 11.10 yng Ngorsaf Dolwyddelan. Wedi inni eu cyfarch a thynnu lluniau fe aethom i ymweld ag Eglwys Sant Gwyddelan. Bu i Irene gynnig yn garedig i gludo ychydig o'r merched o un lle i'r llall, tra bu Merle a Carrie yn cludo eraill i'r Eglwys. Fe ddosbarthwyd taflenni gwybodaeth gydag ychydig o bwyntiau hanesyddol difyr ac fe atebwyd ychydig o gwestiynau, a'r rhan fwyaf ohonyn nhw yn llwyddiannus!

Yn y cyfamser, yn ôl yn y pafiliwn, roedd ein merched oedd yn weddill wrthi'n trefnu'r bwffe a gafodd ei baratoi oddi ar y safle gan yr aelodau yn bennaf ond roeddem ni hefyd yn ddiolchgar i Angie am baratoi ei sgons. Yn dilyn pryd hamddenol lle bu cyfle i'n haelodau sgwrsio gyda'n hymwelwyr, bu i Anna, Alison, Lona ac Eluned ddarllen detholiadau o gofnodion amrywiol yn ystod y 72 mlynedd diwethaf pan ffurfiwyd Sefydliad y Merched Dolwyddelan. Yna bu cyfle i'n hymwelwyr fwrw golwg ar wybodaeth am Hanes Sefydliad y Merched Dolwyddelan, Cofnodion Blaenorol ac ein Llyfr Lloffion – y bu inni ennill yr Ail Wobr amdano.

Doedd ychydig o'n hymwelwyr heb fentro i Ddolwyddelan a thu hwnt o'r blaen. Felly fe awgrymwyd pe byddai unrhyw un yn dymuno teithio ar y trê'n cynt a pharhau ar hyd Rheilffordd Conwy i Flaenau Ffestiniog, yna buasai rhai o'n haelodau yn mynd gyda nhw ac yn tynnu eu sylw at arwyddnodau difyr ar y ffordd. Yna buasai'r ymwelwyr yn dychwelyd ar yr un trê'n a fyddai wedyn yn stopio yn . . .

Trowch y ddalen os gwelwch yn dda